

Y Perchennog/Meddiannydd

**Gofynnwch am/ Please Ask For:** Mr R Morgan

**Ffôn/Telephone:** 01443 281106

**Fy Nghyf/ My Ref:**  
IF165 / RM

**Eich Cyf/ Your ref:**

**Dyddiad/ Date:**  
12/08/2021

Annwyl Berchennog/Feddiannydd,

### **Ffordd y Fynwent, Aberdâr - Cyfyngiadau Gwahardd Aros Ar Unrhyw Adeg Arfaethedig**

Efallai'ch bod chi'n gwybod bod y Cyngor wedi ymgynghori o'r blaen â thrigolion ar gynigion i gyflwyno cyfyngiadau aros ar Ffordd y Fynwent i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y traffig a pharcio sy'n achosi rhwystr.

Mae creu math o ynys ar gyffordd Teras Cledwyn hefyd wedi'i gynnig er mwyn gwella gwelededd.

Anfonwyd llythyrau a chynlluniau i 55 eiddo yn Ffordd y Fynwent. Daeth 12 o atebion i law. Ymhlith yr atebion yma, roedd 5 ohonyn nhw o blaid y cynigion ac roedd 7 yn eu herbyn. Cafodd yr holl sylwadau a ddaeth i law eu hystyried, a dyma ymateb i rai o'r pryderon a godwyd:

#### 1.1 Gwrthwynebiad - dylid cyflwyno cynllun Parcio i Breswylwyr yn Unig ar Ffordd y Fynwent

**Ymateb swyddogion** - Mae cyflwyno Parcio i Breswylwyr yn unig ar Ffordd y Fynwent y tu allan i gylch gwaith y cynllun yma. Fodd bynnag, ni fyddai Ffordd y Fynwent yn cael ei hystyried yn addas ar gyfer parcio i breswylwyr wrth gael eu hasesu yn erbyn Polisi'r Cynghorau.

#### 1.2 Gwrthwynebiad - mae parcio yn broblem ar draws Ffordd y Fynwent; fodd bynnag, bydd cael gwared ar le yn cynyddu'r broblem yn yr ardaloedd cyfagos ac o bosibl yn achosi problemau diogelwch eiddo os bydd raid i breswylwyr barcio mwy na 100-150m o'u cartrefi gyda'r cynlluniau arfaethedig cyfredol.

**Ymateb swyddogion** - Mae'n ddyletswydd ar bob perchennog cerbyd i ddod o hyd i le diogel, cyfleus a chyfreithiol i barcio. Does dim 'hawl' i breswylwyr allu parcio ar y stryd. Mae'r briffordd yno i gerbydau allu teithio, er bod modd caniatáu parcio pan ystyrir ei fod yn ddiogel ac yn rhesymol. Cafodd meddalwedd olrhain cerbydau ei ddefnyddio i ddadansoddi symudiadau'r traffig. Dangoswyd nad yw'n bosibl cynnal llif traffig dwy ffordd ar rai rhannau o Ffordd y Fynwent lle mae parcio dwbl ar hyn o bryd.

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**

Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

### **Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



- 1.3 Sylw gan Breswlydd - mae gen i bryderon y bydd y cynllun yn achosi mwy o broblemau parcio wrth fynd i mewn ac allan o Deras Cledwyn, gan y bydd ceir yn parcio'n ddwbl ar y bryn. Maen nhw wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

**Ymateb swyddogion** - Mae cyflwyno darn ychwanegol o linellau melyn dwbl i ymestyn ar hyd ochr 15 Ffordd y Fynwent i helpu i atal parcio dwbl rhwystrol wrth y fynedfa i Deras Cledwyn yn cael ei ystyried. Mae'r rhain ar y llun IF165-2 Rev 1 sydd wedi'i gynnwys.

- 1.4 Sylw'r Preswlydd - Rydw i'n poeni y byddai cyfyngu'r parcio ar Ffordd y Fynwent yn gallu arwain at gerbydau ychwanegol yn parcio ar y rhan o'r ffordd sy'n wynebu 64-86 Ffordd y Fynwent

**Ymateb swyddogion** - Mae cyflwyno cyfyngiadau aros ar y ffordd fynediad o flaen 64-86 Ffordd y Fynwent y tu allan i gylch gwaith y cynllun arfaethedig. Mae modd i chi roi gwybod i'r Heddlu lleol am unrhyw rwystr i fynediad neu dramwyfeydd. Mae modd i'r Heddlu fynd i'r afael â'r mater yma.

Mae manylion y cynlluniau arfaethedig yma i'w gweld yn y llun **IF165-2 Rev 1** sydd wedi'i gynnwys. Yn ogystal â hynny, mae modd eu gweld ar ein gwefan: [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig)

Y cam nesaf yw paratoi Hysbysiad Cyhoeddus sy'n nodi manylion y cynigion. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Os hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynllun, anfonwch nhw ar bapur erbyn **02/09/2021**, ar gyfer sylw'r Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu drwy e-bostio: [GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Ross Morgan  
Technegydd Materion Traffig - Uned Rheoli Traffig

Tŷ Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**

Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



The Owner / Occupier

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Mr R Morgan

**Ffon/Telephone:** 01443 281106

**Fy Nghyf/ My Ref:**  
IF165 / RM

**Eich Cyf/ Your Ref:**

**Dyddiad/ Date:**  
12/08/2021

Dear Owner/Occupier

### **Cemetery Road, Aberdare - Proposed Prohibition of Waiting at Any Time Restrictions**

As you may be aware, the council have previously consulted with residents on proposals to introduce waiting restrictions in Cemetery Road to address concerns regarding congestion and obstructive parking. It is also proposed to introduce a 'ghost island' at the Cledwyn Terrace junction to further improve visibility.

Letters and plans were sent to 55 properties in Cemetery Road. 12 responses were received - 5 in support of the proposal and 7 objecting to the proposal. All the comments received were considered, and the following are responses to some of the main concerns that were raised:

1.1 Objection - a Residents Only Parking scheme should be introduced on Cemetery Road

**Officer response** - The introduction of Residents only Parking on Cemetery Road is outside the remit of this scheme. However, Cemetery Road would not be considered suitable for residents parking when assessed against the Councils Policy.

1.2 Objection - parking is an issue across Cemetery Road; however, the removal of space will increase issues in surrounding areas and potentially cause safety and security of property issues if residents must park in excess of 100-150m away from their homes with current proposed plans.

**Officer response** - It is the duty of all vehicle owners to find a safe, convenient and legal place to park. There is no 'right' for residents to be able to park on street. The highway is provided for the passage of vehicles, although parking can be permitted where considered safe and reasonable. Vehicle tracking software has been used to analyse traffic movements. It was shown that it is not possible to maintain two-way traffic flows on certain sections of Cemetery Road where there is currently double parking.

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**

Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

### **Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



- 1.3 Resident comment - I have concerns that the scheme will cause more parking issues exiting and entering Cledwyn Terrace, as cars will double park on the hill, which they have done in the past.

**Officer response** - Consideration is being given to introducing an additional section of double yellow lines to extend along the side of 15 Cemetery Road, to help prevent obstructive double parking at the access into Cledwyn Terrace. These are shown on the attached drawing IF165-2 Rev 1.

- 1.4 Resident comment - My concerns are that if you restrict parking on Cemetery Road this may result in additional vehicles parking on the section of road fronting 64-86 Cemetery Road

**Officer response** - The introduction of waiting restrictions in the access road fronting 64-86 Cemetery Road is outside the remit of the proposed scheme. Please note that any obstruction of access or driveways is a matter that can be reported to the local Police, who are able to deal with this under existing powers.

Details of the amended proposals are shown on the attached drawing **IF165-2 Rev 1**, which may also be viewed at [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic)

The next stage is a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment on the proposals, you should do so in writing by the **02/09/2021**, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk)

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me

Yours faithfully,



Ross Morgan  
Traffic Technician - Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**  
Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

### Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)

